

Storïau Bawso

Adroddiad Diwedd Prosiect



Bawso

**AMGUEDDFA
CYMRU**

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru



Cynnwys

Diolch i	2
Termau allweddol.....	2
Crynodeb Gweithredol.....	3
Storïau Bawso	3
Ffigurau Allweddol.....	3
Ynglŷn â Bawso	4
Canolfan George Ewart Evans ar gyfer Adrodd Storïau.....	5
Ynglŷn ag Amgueddfa Cymru	5
Pam Adrodd Stori?	6
Dulliau.....	7
Gweithdai.....	7
Cyfweiliadau Hanes Llafar	8
Storïau Digidol.....	9
Archifau a mynediad	10
Allbynnau allweddol a pherfformiad yn erbyn targedau	11
Amcanion.....	11
Canlyniadau.....	13
Dadansoddiad o Storïau Digidol a Hanesion Llafar	14
Llwyddiannau a Gwersi a ddysgwyd	17
Cyfleoedd ar gyfer Cadwraeth Treftadaeth y Dyfodol.....	20
Atodiad 1: Catalog Stori.....	22
Atodiad 2: Cwestiynau Hanes Llafar	25
Atodiad 3: Taflen Wybodaeth Cyfranogwyr a Ffurflenni Cydsyniad	26
Atodiad 4: Protocol Golygu Hanes Llafar.....	31
Atodiad 5: Dysgu allweddol o'r Gwerthuso Allanol	32

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan yr Athro Emily Underwood-Lee (Prifysgol De Cymru), Nancy Lidubwi (Bawso), Dr Sophia Kier-Byfield (Prifysgol De Cymru), ac Elen Phillips (Amgueddfa Cymru). 2025.

Diolch i

holl ddefnyddwyr gwasanaeth Bawso sydd wedi rhannu eu storïau mor hael; y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth; y tîm cyfan yn Bawso, Prifysgol De Cymru, ac Amgueddfa Cymru, yn enwedig Dr Sophia Kier-Byfield (Prifysgol De Cymru), Annie Gachago a Vilas Kerrai (Bawso), ac Elen Phillips a Grace Todd (ACMW); yr holl weithwyr llawrydd sydd wedi gweithio ar y prosiect hwn gan gynnwys Prue Thimbleby, Lisa Heledd Jones, a Jack Brown; Trosol; Casgliad y Werin Cymru, yn enwedig Berian Elias a Gruffydd Jones.

Termau allweddol

- **Hanes Llafar** – recordiad sain hir lle mae rhywun yn trafod agweddau ar eu bywyd eu hunain a allai fod yn berthnasol i hanesion cymdeithasol ehangach.
- **Stori Ddigidol** – ffilm glyweledol fer wedi'i golygu, fel arfer tua 3 i 5 munud o hyd, wedi'i hadrodd yn y person cyntaf gan ddefnyddio llais dilys y sawl sy'n cyfrannu, yn aml gyda delweddau llonydd.
- **Stori** – o fewn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio stori i gyfeirio at unrhyw naratif personol a adroddir wrth dîm y prosiect. Gellir recordio storïau neu beidio, a gellir eu golygu i greu hanes llafar, stori ddigidol, neu'r ddau.
- **VAWDASV** – Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- **Cyfranogwyr** – pobl a ddewisodd gymryd rhan yn y prosiect a rhannu stori.
- **Defnyddwyr Gwasanaeth** – pobl sy'n defnyddio gwasanaethau VAWDASV. Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio defnyddwyr gwasanaeth i olygu'r un peth â chyfranogwyr gan fod y prosiect yn gynnig wedi'i gynllunio'n benodol i bobl sy'n ymgysylltu â Gwasanaethau VAWDASV.
- **Storiwr** - yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio storiwyr fel term i olygu cyfranogwyr hefyd
- **Tîm y Prosiect** – yr holl staff cyflogedig sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect, naill ai fel gweithiwr yn Bawso, Prifysgol De Cymru neu Amgueddfa Cymru neu fel gweithiwr llawrydd.
- **Cydsyniad** – y broses o gytuno bod stori'n cael ei recordio a'i rhannu. Yn y prosiect hwn, gofynnwyd am ganiatâd gwybodus, sy'n golygu bod angen i'r storiwyr ddeall beth oedd y prosiect, deall beth oedd yn cael ei gofnodi a lle byddai'n cael ei rhannu. Roeddent yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl neu ddiwygio eu cyfraniad ar unrhyw adeg hyd at y pwynt yr oedd y stori'n cael ei chyhoeddi.

Crynodeb Gweithredol

Storïau Bawso

Mae prosiect Storïau Bawso yn brosiect partneriaeth arloesol rhwng Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans Prifysgol De Cymru, sefydliad cymorth arbenigol Bawso, ac Amgueddfa Cymru. Gan weddnewid y ffyrdd y caiff treftadaeth Cymru ei deall, ei chadw a'i chynrychioli, bu defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi derbyn cefnogaeth Bawso yn rhannu eu storïau, ar ffurf storïau digidol a hanesion llafar, gydag ymchwilyr o Brifysgol De Cymru. Cafodd y storïau eu harchifo gan yr Amgueddfa a, lle bo'n briodol, maen nhw ar gael i'r cyhoedd fel rhan o ddehongliad yr amgueddfa ac ar archif ar-lein Casgliad y Werin Cymru.

Mae gan Gymru dreftadaeth gyfoethog o fudo sydd ddim ond wedi'i gofnodi'n rhannol. Mae llawer o'r storïau sydd gan bobl a ddaeth i Gymru mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth ar goll o'r hanesion hyn. Er eu bod yn awyddus i gael eu clywed, a bod ganddynt storïau diddorol ac amrywiol i'w hadrodd, ychydig iawn o gyfleoedd mae pobl sydd wedi eu cefnogi gan Bawso wedi'u cael i rhannu eu storïau a sicrhau eu bod yn cael eu harchifo ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r prosiect hwn yn rhoi llais a chynulleidfa i rai o storïau'r bobl hynny sydd wedi cael cefnogaeth Bawso, gan greu gwell dealltwriaeth o dreftadaeth a hunaniaeth Cymru.

Ffigurau Allweddol

154 o ymgysylltiadau gyda'r prosiect.¹

- **Casglwyd ac archifwyd 64 o storïau** gan **27 o gyfranogwyr** (O.N.: cofnododd sawl cyfranogwr fwy nag un stori). Gellir dadansoddi'r storïau fel a ganlyn:
 - Casglwyd ac archifwyd **19 o hanesion llafar** gan 19 o gyfranogwyr
 - Casglwyd **45 stori** ddigidol gan 24 o gyfranogwyr
- **Cymerodd 45 o bobl ran mewn 5 gweithdy** a gynhaliwyd ar safleoedd Amgueddfa Cymru ledled Cymru
- **Cynhaliwyd 2 ddangosiad o storïau** yn Amgueddfa Cymru gan ddenu **52 o ddefnyddwyr gwasanaeth a staff o Bawso** yn ogystal â thua 30 aelod o'r cyhoedd.

¹ Mae'r ymgysylltiadau'n cynnwys: mynychu gweithdy, recordio stori, neu fynychu digwyddiad sgrinio. Mae ymgysylltiadau pellach, nad oes ffigurau ar gael ar eu cyfer ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, yn cynnwys cynulleidfaoedd mewn cyflwyniadau academaidd a phroffesiynol a'r rheiny sydd wedi dod ar draws y prosiect ar-lein drwy'r archif ddigidol neu drwy gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol gan Bawso a Phrifysgol De Cymru.

Partneriaid y Prosiect

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Bawso, Canolfan Adrodd Storiâu George Ewart Evans ym Mhrifysgol De Cymru, ac Amgueddfa Cymru, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ynglŷn â Bawso



Sefydlwyd Bawso ym 1995 gan grŵp bach o fenywod du lleiafrifedig yng Nghaerdydd, a oedd yn poeni am briodoldeb gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr cam-drin domestig. Roedd y menywod yn rhentu ystafell gyda desg, cadair a ffôn, a dechreuwyd codi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau du a

lleiafrifedig, gyda'r llywodraeth, cyrff statudol, a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector.

Dros y blynyddoedd, bu Bawso yn gwneud gwaith arloesol mewn meysydd ymhell cyn iddynt ddod yn faterion o ddiddordeb i'r cyhoedd ac yn destun deddfwriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd, ac yn fwyaf diweddar, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Mae gwasanaethau Bawso bellach yn ymestyn ar draws Cymru, gan gyflogi dros gant o staff hyfforddedig a phrofiadol a nifer o wirfoddolwyr. Gyda throsiant o £4.6 miliwn y flwyddyn, caiff Bawso ei ariannu gan y llywodraeth ganolog yn San Steffan, llywodraeth ddatganoledig Bae Caerdydd, awdurdodau lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, cyrff statudol eraill, sefydliadau, ymddiriedolaethau, dyngarwyr, a gweithgareddau codi arian yn y gymuned.

Mae Bawso yn cynnal llochesi pwrpasol, tai diogel, cyfleusterau siop un stop, cefnogaeth fel y bo'r angen i oroeswyr yn y gymuned, a phrosiectau arbenigol ar gyfer pob maes o drais a cham-fanteisio ar fenywod a merched, dynion a bechgyn. Mae Bawso yn cefnogi dros 6,000 o unigolion bob blwyddyn a bob blwyddyn mae'r niferoedd hyn yn cynyddu.

Mae gwaith maes yn cael ei ategu gan linell gymorth 24 awr, adran hyfforddi sydd wedi ymrwymo i wella gwasanaethau Bawso a sgiliau staff Bawso yn barhaus, a darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i asiantaethau allanol, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr gan gynnwys yr heddlu, meddygon teulu, staff y GIG, athrawon a gweision sifil. Mae gan Bawso hefyd adran gyfieithu ac adran cyfieithu ar y pryd fawr ac ymroddedig o weithwyr achrededig.

Mae Bawso yn cael ei lywodraethu gan fwrdd o fenywod a dynion du a lleiafrifedig medrus a phrofiadol iawn o'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae staff a gwirfoddolwyr Bawso hefyd yn dod o gymunedau du a lleiafrifedig yng Nghymru, gan roi dealltwriaeth unigryw iddynt o ddiwyllïannau, crefyddau ac ieithoedd eu defnyddwyr gwasanaeth a'u cymunedau.

Canolfan George Ewart Evans ar gyfer Adrodd Storïau

Mae Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ym Mhrifysgol De Cymru wedi ymrwmo i hyrwyddo, addysgu, datblygu ac ymchwilio i adrodd storïau yn eu holl ffurfiau. Lanswyd y Ganolfan ym mis Ebrill 2005 a, dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae wedi tyfu i fod yn ganolfan ymchwil sefydledig gydag effaith fyd-eang



ar ddealltwriaeth o adrodd storïau a'i ddefnydd a'i werth fel modd o gynnwys pobl, dull effeithiol o sicrhau y caiff lleisiau ymylol eu clywed, ffordd o ddeall profiadau, ac fel offeryn ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol. Cafodd y Ganolfan ei henwi ar ôl yr arloeswr sosialaidd a hanes llafar George Ewart Evans, a gafodd ei eni a'i fagu yn hen gymuned lofaol Abercynon, daflad carreg o gampws y Brifysgol yn Nhreforest.

Mae adrodd storïau'n gelfyddyd unigryw ac yn offeryn gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth a chyfathrebu. Mae ein gwaith yn cyfrannu at ddatblygu adrodd storïau, mae'n codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a dinesig o adrodd storïau, ac yn herio gwerthoedd diwylliannol a thybiaethau cymdeithasol. Ein meysydd gwaith yw: adrodd storïau, iechyd a lles; adrodd storïau a'r amgylchedd; adrodd storïau a chyfiawnder cymdeithasol; a diwylliant a threftadaeth adrodd storïau. Mae'r meysydd ffocws allweddol hyn wedi'u seilio ar thema drawsbynciol methodolegau ymchwil adrodd storïau ac arloesi. Mae ein meysydd ffocws yn cael eu fframio gan ddull rhyngblethol sy'n gweithio ar draws cwrs bywyd ac ar draws hunaniaethau ac sy'n symud rhwng y micro-gymdeithasol, y rhyngwladol a'r trawswladol.

Mae Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans yn un o nifer o ganolfannau ymchwil ym Mhrifysgol De Cymru. Mae ymchwil fywiog ac effeithiol y Brifysgol yn cyfrannu at ddatrys problemau gwirioneddol sy'n wynebu ein cymdeithas gyda thimau ymchwil amlddisgyblaethol yn cydweithio â diwydiant, cymunedau a sefydliadau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau. Dyfarnwyd bod 81% o effaith ymchwil y Brifysgol yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU yn ddiweddar, ac mae'r Brifysgol wedi cael ei graddio fel y cyntaf yn y DU o ran boddhad myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

Ynglŷn ag Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen, ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol ac un ganolfan gasgliadau ar draws Cymru. Yn fwy nag adeiladau yn unig, mae safleoedd yr amgueddfa yn fannau cymunedol hanfodol sy'n cyrraedd ymhell y tu hwnt i'w lleoliadau ar fap. Nod Amgueddfa Cymru yw



ysbrydoli pawb y mae'r sefydliad yn eu cyrraedd trwy stori Cymru a chydabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu drwy eu hamgueddfeydd, eu casgliadau, a'r gwaith maen nhw'n ei wneud.

Mae croeso Amgueddfa Cymru am ddim, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, ac yn ymestyn i bobl o bob cymuned sy'n helpu i ddangos bod Cymru - y gorffennol, y presennol a'r dyfodol - yn genedl amrywiol. Mae Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac mae wedi ymrwymo i sicrhau nad yw tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd ac anabledd yn rhwystrau rhag cyfranogi. Mae eu gwaith wedi'i wreiddio yn yr amrywiaeth o draddodiadau o ran diwylliant, iaith a meddwl yng Nghymru. Maent yn mynd ati i gefnogi cymunedau sy'n profi anghydraddoldebau neu hiliaeth trwy gyflawni cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, LHDTC+ a chynlluniau cydraddoldeb eraill Llywodraeth Cymru ac sydd am ei gwneud yn haws i bobl ledled Cymru ddefnyddio a mwynhau eu casgliadau a bod yn rhan o greu digwyddiadau ac arddangosfeydd. Yn cyd-fynd â hyn mae eu hymrwymiad hirdymor i gydnabod y rôl negyddol y mae gwladychiaeth wedi'i chwarae mewn amgueddfeydd ledled y byd, ac i unioni hyn. Mae arddangosiadau ac arddangosfeydd newydd yn dathlu ac yn cynrychioli hanes a chelfyddydau cymunedau sy'n profi anghydraddoldebau neu hiliaeth.

Pam Adrodd Stori?

Mae storïau'n allweddol er mwyn deall ein treftadaeth: maen nhw'n ein helpu ni i weld sut rydym ni wedi cyrraedd y lle'r ydym ni nawr a pham mae hynny'n bwysig ar lefel ddynol. Mae rhannu storïau'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth Bawso nad ydynt wedi cael y cyfle i adrodd eu storïau o'r blaen a chodi ymwybyddiaeth o agweddau ar dreftadaeth gudd eu diwylliannau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, sy'n llywio eu bywydau bob dydd. Mae defnyddwyr gwasanaeth Bawso wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo ei bod yn hanfodol bod eu storïau'n cael eu clywed a'u cadw nawr - mae eu storïau'n bwysig nid yn unig i'r genhedlaeth nesaf ond hefyd i boblogaeth ehangach Cymru a fydd yn gallu deall yn well sut mae mudo yn siapio treftadaeth Cymru. Bydd y storïau'n creu diwylliant mwy trylwyr o ddealltwriaeth ac yn galluogi cymunedau i gael eu derbyn yn well yn eu cymdogaethau Cymreig newydd, gan gyfrannu hefyd at ddiwylliant cyfoethog Cymru. Trwy rannu'r storïau hyn a sicrhau eu bod yn cael eu clywed gan amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gallwn ehangu lleisiau cymunedau sydd ar y cyrion yn aml a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod fel rhan ganolog o'n treftadaeth gyfunol fel cenedl.

Mae Adrodd Storïau Digidol a Hanes Llafar yn caniatáu i'r sawl sy'n adrodd y stori gymryd rheolaeth dros ei gynrychiolaeth ei hun ac i dreftadaeth gael ei chyd-gynhyrchu'n wirioneddol. Yn y prosiect hwn rydym wedi casglu storïau a adroddwyd, a siapiwyd ac a darluniwyd gan y prif gymeriadau. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod hanes yn oddrychol a bod angen i ni weld digwyddiadau o amrywiaeth o safbwyntiau er mwyn cael dealltwriaeth lawnach a mwy cymhleth. Egwyddor allweddol o adrodd storïau digidol a hanes llafar yw bod llais dilys y storïwr yn cael ei barchu. Penderfynwyd y byddem yn rhoi cyfle i gyfranogwyr rannu eu storïau yn eu geiriau eu hunain gan ddefnyddio'r iaith o'u dewis. Nid cywirdeb ffeithiol na gwrthrychedd oedd y nod, ond cofnod o'r gwirionedd hanesyddol a'r ddealltwriaeth sy'n anodd eu canfod ac y gellir eu cael trwy wrando ar sut roedd digwyddiadau penodol teimlo ac yn effeithio ar yr unigolion a oedd yn rhan ohonynt. Mae pwysigrwydd amrywiaeth o safbwyntiau yn ganolog i'n cysyniad o dreftadaeth ar y cyd trwy ddod â nifer o leisiau unigol ynghyd. Mae storïau'n ddemocrataidd eu natur - mae pawb yn gallu adrodd stori a, phan glywn ni stori, rydym yn agor hanes fel ei fod yn cael ei ysgrifennu a'i wneud yn werthfawr i'r holl bobl sy'n byw'r hanes ac yn cyfrannu ato, yn hytrach na bod ynghlwm wrth adeiladau, lleoliadau, syniadau, neu strwythurau pŵer sefydlog. Yn anad dim, mae dull adrodd storïau'n sicrhau bod uniongrededd yn cael eu herio, ac nad yw lleisiau dilys yn cael eu colli.

Dulliau


Mabwysiadodd y prosiect hwn ymagwedd aml-ddull, gan ddefnyddio cyfweiliadau un-i-un a gweithdai grŵp er mwyn diwallu anghenion y cyfranogwyr a dod o hyd i ffyrdd o adrodd stori a oedd yn teimlo'n gyfforddus ac yn briodol ar gyfer pob storiwr. Trwy gydol y prosiect, rhoddwyd pwyslais ar gofnodi'r profiadau a'r atgofion yr oedd y cyfranogwyr am eu rhannu a gwnaed ymdrechion helaeth i dawelu meddwl y cyfranogwyr nad oedd angen iddynt ddatgelu manylion pam eu bod yn cael eu cefnogi gan Bawso, na chanolbwyntio ar hynny. Yn ganolog i'r prosiect oedd dod o hyd i ffyrdd o greu gofod lle y gellid gwahodd y cyfranogwyr i adrodd stori wahanol a rhannu rhannau eraill o'u bywydau a'u hatgofion. Roedd storiwyr yn gallu cyfranogi yn yr iaith o'u dewis a darparwyd cyfieithwyr gan Bawso yn ôl yr angen. Weithiau roedd ffrindiau neu berthnasau yn dod gyda'r cyfranogwyr i weithdai a chyfweiliadau un-i-un, neu byddai'r cyfranogwyr yn dod â'u plant gyda nhw, ac roedd pawb yn cael eu cefnogi gan dîm y prosiect. Dewisodd rhai o'r cyfranogwyr fynychu gweithdy amgueddfa ynghyd â chyfweiliad un-i-un tra bod eraill yn dewis mynychu un neu'r llall.

- Ar ôl eu recordio, golygwyd yr holl storïau, naill ai fel hanesion llafar ffurf hir neu fel storïau digidol clyweledol byrrach. Roedd golygu'r storïau'n hanfodol er mwyn medru dileu unrhyw beth a allai beryglu diogelwch y cyfranogwyr. Dim ond ar ôl dilyn proses gydsynio dau gam y gwnaed pob stori yn gyhoeddus gyda'r cyfranogwyr yn cydsynio gyntaf i gofnodi eu stori ac yna'n cydsynio i gyhoeddi'r fersiwn wedi'i golygu. Gallai'r cyfranogwyr ddewis ymgysylltu â'r broses gydsynio'n bersonol gyda thîm y prosiect neu eu gweithwyr cymorth, neu'n ddigidol. Roedd y cyfranogwyr yn gallu dewis sut yr hoffent gael eu priodoli yn eu stori, gyda llawer yn dewis ffugenwau. Yn olaf, bu staff y prosiect yn Bawso yn adolygu'r holl storïau cyn eu cyhoeddi. Cliriwyd y prosiect yn foesegol gan Brifysgol De Cymru.²

Gweithdai

Gwahoddwyd cyfranogwyr i weithdai dan arweiniad tîm y prosiect, a chynhaliwyd y gweithdai ar safleoedd Amgueddfa Cymru ledled Cymru gan gynnwys: Amgueddfa Genedlaethol (Caerdydd), Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru (Caerdydd), Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (Abertawe), Amgueddfa Lechi Cymru (Llanberis) ac Amgueddfa Wlân Cymru (Dre-fach). Roedd pob gweithdy'n cynnwys rhwng 7 a 10 o gyfranogwyr (sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a staff/gwirfoddolwyr a wahoddwyd hefyd i rannu storïau), gyda chludeiant, bwyd a chymorth yn cael eu darparu gan Bawso. Cynhaliwyd gweithdai rhwng 10am a 2pm gyda seibiannau yn ôl yr angen er mwyn darparu ar gyfer ymrwymadau eraill y cyfranogwyr.

² Ar gyfer taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr, gweler atodiad 3.



Ffigur 1: Cyfranogwyr y gweithdai yn ôl lleoliad

Roedd pob gweithdy yn cynnwys:

- Cyflwyniad i'r prosiect,
- Taith o amgylch safle Amgueddfa Cymru gyda golwg agos ar y casgliadau,
- Cyfle i fyfrio ar yr hyn a welwyd,
- Cinio ar y cyd,
- Cyflwyniad i sesiwn adrodd storïau,
- Cyfle i adrodd storïau personol wedi'u hysbrydoli gan yr ymweliad â'r amgueddfa a'u recordio.

Roedd y cyfranogwyr yn gallu defnyddio offer ffotograffiaeth os nad oedd ganddynt ffôn clyfar neu os oedd yn well ganddynt beidio â defnyddio eu dyfais eu hunain. Yna cafodd unrhyw ddeunydd a recordiwyd ei olygu er mwyn cynhyrchu storïau digidol fel y bo'n briodol. Oherwydd amgylchiadau'r cyfranogwyr a oedd yn golygu nad oedd ganddynt lawer o fynediad i'w harchifau ffotograffig personol eu hunain neu oherwydd bod angen iddynt ddefnyddio delweddau mwy generig at ddibenion diogelwch, roedd delweddau stoc yn aml yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â delweddau a ddewiswyd neu a ddarparwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth. Cynigiwyd cyfle hefyd i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn cyfweiliadau un-i-un hirach ar ôl ymweld â'r amgueddfa os oeddent am rannu mwy gyda'r tîm, ac roedd modd iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad hyd yn oed os nad oeddent wedi bod mewn gweithdy amgueddfa.³

Cyfweiliadau Hanes Llafar

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i safle Bawso i rannu eu hanesion llafar mewn cyfweiliadau un-i-un os oeddent yn dewis gwneud hynny. Mae safleoedd Bawso wedi'u lleoli ledled Cymru ac maent yn fannau diogel lleol a chyfarwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth Bawso. Cafodd costau teithio a lluniaeth eu darparu. Cynhaliwyd cyfweiliadau gan dîm y prosiect o Brifysgol De Cymru, ac roedd

³ Am restr lawn o'r hanesion llafar a storïau digidol a grëwyd ac y cytunodd y cyfranogwyr iddynt gael eu rhannu, gweler atodiad 1.

staff cymorth o Bawso bob amser yn bresennol ar y safle i groesawu'r cyfranogwyr ac i helpu iddynt ymdawelu yn dilyn y cyfweiliadau. Pan oedd angen, roedd cyfieithwyr hefyd yn bresennol wrth recordio'r cyfweiliad. Roedd gofal plant ar gael ar y safle yn ôl yr angen. Roedd y cyfweiliadau'n para rhwng 15 munud a 2 awr yn dibynnu ar yr hyn yr oedd y cyfranogwr yn dymuno ei rannu a lefel y gefnogaeth yr oedd ei hangen i wneud hynny. Roedd pob cyfweiliad yn cynnwys:

- Cyflwyniad i'r prosiect,
- Cyflwyniad i recordio hanes llafar,
- Recordio hanes llafar gyda phynciau'n cynnwys:⁴
 - Profiadau o ddod i Gymru a theimladau am Gymru nawr,
 - Teimladau am eu cartref a'r hyn y mae'r cartref hwn yn ei olygu nawr,
 - Y gorffennol, atgofion pwysig, a phlentyndod,
 - Adegau pwysig lle mae rhywbeth wedi newid,
 - Gobeithion ar gyfer y dyfodol,
 - Unrhyw beth arall y mae'r cyfranogwr eisiau i bobl ei wybod,
- Cyfle i drafod a myfyrio ar y cyfweiliad.

Ar ôl eu recordio, roedd yr hanesion llafar yn cael eu golygu yn dilyn protocol a gytunwyd rhwng y tîm er mwyn cael gwared ar wybodaeth nad oedd yn addas i'w rhannu.⁵ Roedd hefyd yn hanfodol rhoi cyfle i'r cyfranogwyr olygu unrhyw beth yr oeddent am ei dynnu neu ei ail-recordio er mwyn ychwanegu rhagor o fanylion. Ar ôl i'r hanesion llafar gael eu cwblhau, eu golygu a phawb yn cytuno ar y cynnwys, roeddent yn cael eu trawsgrifio cyn cael eu harchifo. Roedd rhai agweddau o'r recordiadau hanes llafar hefyd yn cael eu defnyddio i wneud storïau digidol clyweledol byrrach.

Storïau Digidol

Golygwyd y storïau a gasglwyd yn ystod y gweithdai a'r recordiadau hanes llafar gan dîm y prosiect i adeiladu storïau digidol. Mae adrodd storïau digidol yn cyfleu storïau pobl mewn ffilmiau digidol byr y gellir eu rhannu ar-lein. Mae'r ffilmiau hyn fel arfer yn cyflwyno llais dyls y siaradwr ac yn defnyddio delweddau llonydd i greu cofnodion llawn teimlad o brofiadau personol a threftadaeth fyw pobl. Yn y prosiect hwn rydym wedi cadw at gonfensiynau stori ddigidol o ran ffurf a chynnwys, ond yn hytrach na throsglwyddo'r gwaith o olygu'r storïau i'r storiwyr eu hunain fel sy'n cael ei wneud yn aml yn y broses adrodd storïau digidol, mae tîm y prosiect wedi golygu'r storïau ar ran y storiwyr ac yna eu hadolygu gyda'r cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli yn unol â'u dymuniadau. Gan ein bod wedi defnyddio'r dull hwn, roedd y baich ar y storiwr yn cael ei leihau ac roedd yn golygu bod modd i'r dull fod ar gael i'r rhai a allai gael eu hallgáu'n ddigidol fel arall, ystyriaethau pwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth Bawso. Yn yr un modd â phob allbwn arall, dilynwyd proses gydsynio dau gam gan ofyn am ganiatâd i recordio a gofyn am ail lefel o ganiatâd cyn ei gyhoeddi. Rhoddwyd yr opsiwn i bob storiwr i'w stori ddigidol fod ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd ac roedd modd iddynt gydsynio i gynifer neu gyn lleied o opsiynau ag yr oeddent yn dymuno:

- a. Yn archifau a chasgliadau Amgueddfa Cymru
- b. Ar wefannau, e.e. Casgliad y Werin Cymru, Bawso, a Phrifysgol De Cymru, Amgueddfa Cymru, etc..

⁴ Am restr lawn o gwestiynau hanes llafar, gweler atodiad 2

⁵ Gweler atodiad 4 am fanylion y protocol cymeradwyo.

- c. Ar y cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, Instagram, LinkedIn, etc.
- d. Mewn cyhoeddiadau ysgrifenedig, e.e. adroddiadau prosiect, erthyglau cyfnodolion, etc.
- e. Unrhyw ddefnydd arall yn unol â nodau ac amcanion y prosiect

Archifau a mynediad

Mae pob stori, pan fo hynny'n briodol, a beth bynnag eu ffurf (h.y. storïau digidol a hanesion llafar gyda chaniatâd i'w rhannu) wedi'u harchifo yn Amgueddfa Cymru. Pan fo cydsyniad ar gael i rannu storïau ar y cyfryngau cymdeithasol, maen nhw ar gael trwy Gasgliad y Werin Cymru, sydd hefyd yn cysylltu â Hwb, platfform adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.⁶ Bydd storïau hefyd yn cael eu rhannu drwy blatfformau ar-lein partneriaid y prosiect a thrwy eu rhaglenni addysg gan gynnwys cronfa ddata Casgliadau Ar-lein Amgueddfa Cymru. Yn dilyn cyngor gan aelod o'r grŵp llywio a thrafodaeth bellach ymhlith y tîm, penderfynwyd na allai storïau oedd â chaniatâd ar gyfer eu rhannu ar-lein ond nid ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol nac unrhyw ddefnydd perthnasol arall gael eu rhannu'n ddiogel ar-lein trwy wefannau fel Casgliad y Werin Cymru, ond byddant ar gael drwy archif yr amgueddfa.

⁶ Ar gael yn <https://www.casgliadywerin.cymru/users/117801>

Allbynnau allweddol a pherfformiad yn erbyn targedau

Amcanion

Byddwn yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl

Er na chasglwyd data demograffig gan y cyfranogwyr, gwyddom fod mwyafrif llethol defnyddwyr gwasanaeth Bawso yn fenywod o gymunedau pobl ddu ac ethnig leiafrifol, er eu bod hefyd yn cefnogi rhai dynion a rhai pobl o gymunedau mudol gwyn. Roedd hwn yn brosiect pwrpasol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Bawso ac rydym yn disgwyl i nodweddion y cyfranogwyr yn y prosiect hwn adlewyrchu'n fras nodweddion cymuned ehangach Bawso. Mae ymchwyl yn dangos i ni fod aelodau o'r cymunedau a gefnogir gan Bawso wedi cael eu tangynrychioli mewn cadwraeth treftadaeth yn y DU.⁷

Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell

Rydym wedi cofnodi, archifo a rhannu 64 o hanesion llafar a storïau na chawsant eu clywed o'r blaen gan boblogaethau pobl ddu ac ethnig leiafrifol. Wrth i'r storïau barhau i gael eu rhannu yn Amgueddfa Cymru, trwy Gasgliad y Werin Cymru ac yng ngweithgareddau a rhwydweithiau Bawso, yn enwedig gwaith addysg gydag ysgolion a gwasanaethau sy'n cefnogi goroeswyr trais, bydd ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol cymunedau Bawso yn parhau i gynyddu. At hynny, mae'r rhai sydd wedi cyfrannu at y prosiect wedi dweud wrthym eu bod wedi gweld, am y tro cyntaf, y gwerth y mae eraill, gan gynnwys sefydliadau cenedlaethol, yn ei roi ar eu treftadaeth ac, o ganlyniad, yn cael eu cymell i barhau i rannu eu treftadaeth gyda'r gymuned ehangach.

Bydd treftadaeth yn cael ei nodi a'i hesbonio'n well

Ymwelodd 84 o ddefnyddwyr gwasanaeth o Bawso ag Amgueddfa Cymru, y rhan fwyaf am y tro cyntaf, naill ai i gymryd rhan mewn gweithdy neu i fynychu dangosiad. Mae'r rhai a gymerodd ran wedi dweud wrthym ni nad oeddent yn gwybod bod y safleoedd hyn yn bodoli, nad oeddent yn gwybod bod mynediad am ddim neu eu bod yn teimlo nad oedd y gofodau 'yno i ni'. Mae cefnogi cymunedau Bawso i ymweld â'r safleoedd amgueddfa hyn wedi eu gwneud yn fwy agored a hygyrch ac mae'r cyfranogwyr wedi dweud wrthym ni eu bod yn parhau i ymweld â'r amgueddfeydd ac wedi dod â theulu a ffrindiau i'r safle yn sgil eu hymgysylltiad.

I Amgueddfa Cymru, amlygodd y prosiect ymhellach bwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth fel egwyddor sylfaenol o ymarfer curadurol cyfranogol. Heb y model hwn o weithio, mae'n annhebygol y byddai gan yr amgueddfa'r arbenigedd a'r gallu i gyflawni prosiect mor fawr ac uchelgeisiol. Roedd y curaduron dan sylw - er eu bod yn brofiadol mewn casglu tystiolaeth lafar - yn gymharol anghyfarwydd â storïau digidol fel methodoleg, a'r defnydd o wrthrychau hanesyddol fel cyfryngau i dynnu hanesion bywyd personol a chyfoes allan fel hyn. O'r herwydd, bydd y storïau digidol a gasglwyd gan dîm y prosiect yn arwain y ffordd o ran cyflwyno storïau i gasgliad clyweledol cenedlaethol yr amgueddfa.

Bydd pobl wedi datblygu sgiliau

Drwy gael eu cefnogi i rannu a chofnodi eu storïau eu hunain, mae'r cyfranogwyr wedi gallu cynyddu eu gwybodaeth a'u hyder wrth adrodd storïau yn eu ffyrdd eu hunain ac wrth gofnodi'r rhain yn ddigidol trwy recordio sain. Mae staff y prosiect yn Bawso hefyd wedi ymgysylltu mwy â'r broses o

⁷ Gweler <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/culture-and-community/culture-and-heritage/adults-visiting-museums-and-galleries/latest/#by-ethnicity>.

adrodd storïau at ddibenion casglu a chadw treftadaeth ac maen nhw bellach yn hyderus i barhau i ddefnyddio'r dulliau hyn gyda'u cymunedau. Yn ogystal, llwyddodd defnyddiwr gwasanaeth Bawso i ymuno â grŵp llywio'r prosiect, gan roi cyfle i'r unigolyn ennill sgiliau mewn rheoli prosiectau.

Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, a bydd hyn yn arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd

Nawr bod storïau wedi'u cofnodi, mae tîm y prosiect yn gallu rhannu'r storïau'n eang fel rhan o raglen addysg Bawso, gan gynyddu dealltwriaeth rhwng diwylliannau ac arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd a, thrwy hynny, Cymru fwy cydlynus a goddefgar.

Bydd lles pobl yn well

Mae defnyddwyr gwasanaeth Bawso wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi llwyddo i gael eu gweld fel pobl y tu hwnt i'w trawma neu'r rhesymau pam eu bod wedi ceisio cefnogaeth gan Bawso trwy gymryd rhan yn y prosiect hwn. Mae'r prosiect hefyd wedi lleddfu peth o bwysau'r sefyllfaoedd y mae defnyddwyr gwasanaeth Bawso yn eu hwynebu, ac mae'r cyfranogwyr wedi dweud wrthym fod hyn wedi cael effaith enfawr ar eu lles.

Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnerth

O ganlyniad uniongyrchol i'r bartneriaeth sy'n gweithio ar y prosiect hwn, mae Bawso a Phrifysgol De Cymru wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol i barhau i gydweithio i ddeall anghenion a phrofiadau pobl a gefnogir gan Bawso.⁸ Mae Nancy Lidubwi, Arweinydd Prosiect Bawso, hefyd wedi cael ei hanrhydeddu â Chymrodoriaeth Ymweld ym Mhrifysgol De Cymru er mwyn parhau i ddatblygu cysylltiadau rhwng y sefydliadau. Mae'r Cydymaith Prosiect ym Mhrifysgol De Cymru wedi mynd ymlaen i sicrhau contract pellach gyda'r Brifysgol, gan sicrhau y gellir datblygu'r dysgu o'r prosiect hwn mewn prosiectau yn y dyfodol a chadw unigolion medrus yng Nghymru.

Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld ag ef

Mae gwell dealltwriaeth o ddiwylliant cyfoethog Cymru a chadwraeth diwylliant yng Nghymru yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl brofi a gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliant a threftadaeth yng Nghymru. Mae'n hyrwyddo cynhwysiant a chydlyniant cymunedol. Er bod yr effaith hon yn anodd iawn ei mesur ar hyn o bryd, gobeithiwn y bydd y storïau'n hyrwyddo dealltwriaeth ac yn datblygu cymunedau gwell. Wrth i'r storïau gael eu rhannu'n ehangach, byddwn yn parhau i fonitro eu heffaith ar gynulleidfaoedd.

⁸ Sicrhawyd £329,726 gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i archwilio anghenion defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas ag ymatebion amlasiantaethol a £3000 o gronfeydd mewnol Prifysgol De Cymru er mwyn datblygu adnoddau addysg a chanllawiau taith gerdded o amgylch amgueddfeydd ac i alluogi ymgysylltiad rhyngwladol.


Canlyniadau

Canlyniad disgwyliedig yng nghynllun y prosiect	Statws	Nodiadau
Penodi Cydymaith Prosiect BAWSO a Chydymaith Prosiect GEECS	Cwblhawyd	
Cyfarfodydd Grŵp Llywio Deufisol	Cwblhawyd	Cynhaliwyd chwe chyfarfod grŵp llywio yn ystod y prosiect. Roedd y grŵp llywio yn cynnwys: Tîm y prosiect (Bawso x 2, Prifysgol De Cymru x 2, Amgueddfa Cymru x 1), gwerthuswr prosiect, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth
Recriwtio Gwirfoddolwyr i'r prosiect	Cwblhawyd	
Moeseg y prosiect	Cwblhawyd	
Prynu offer TGCh	Cwblhawyd	
Recriwtio gwerthuswr	Cwblhawyd	
Rheoli a goruchwyllo'r prosiect yn barhaus	Cwblhawyd	
Datblygu a chyflwyno Cysylltiadau Cyhoeddus y prosiect	Cwblhawyd	
Hyfforddiant i weithio gyda phobl agored i niwed	Cwblhawyd	
Recriwtio hwylusydd gweithdai llawrydd	Cwblhawyd	
Adnabod a recriwtio gwirfoddolwyr i gyfrannu storïau digidol/hanesion llafar	Cwblhawyd	Rhannodd 27 o gyfranogwyr storïau gyda ni
Cyflwyno 5 gweithdy lle bydd o leiaf 25 o hanesion llafar yn cael eu casglu gan gynhyrchu delweddau y gellir eu harchifo a'u defnyddio i greu o leiaf 30 S stori ddigidol.	Cwblhawyd	Cynhaliwyd gweithdai yn: Yr Amgueddfa Genedlaethol, (Caerdydd), Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru (Caerdydd), Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (Abertawe), Amgueddfa Lechi Cymru (Llanberis) Amgueddfa Wlân Cymru (Llandysul)
Golygu o leiaf 25 o storïau digidol a 25 o recordiadau hanes llafar	Cwblhawyd	Casglwyd 64 o storïau gan gynnwys creu 19 hanes llafar rhannu 45 stori ddigidol
Rhannu'r storïau digidol ar-lein	Parhaus	Mae 40 stori ddigidol a 17 o hanesion llafar (h.y. y rhai sydd â chaniatâd i gael eu rhannu ar-lein) wedi eu harchifo ac maen nhw ar gael ar Gasgliad y Werin Cymru. Yn ogystal, bydd Bawso yn parhau i broffilio storïau ar eu cyfryngau cymdeithasol.
Curadu a chreu dehongliad o storïau digidol ochr yn ochr â gwrthrychau/mannau	Parhaus	Bydd staff Amgueddfa Cymru'n ystyried allbynnau posibl ar gyfer y storïau digidol a'r hanesion llafar fel rhan o'u cynllunio dysgu a rhaglennu cyhoeddus ar gyfer 2025-26.

perthnasol yn Amgueddfa Cymru		
Archifo storïau a hanesion llafar	Cwblhawyd	Bydd staff Amgueddfa Cymru'n ystyried allbynnau posibl ar gyfer y storïau digidol a'r hanesion llafar fel rhan o'u cynllunio dysgu a rhaglennu cyhoeddus ar gyfer 2025-26.
Digwyddiad terfynol	Cwblhawyd	
Gwerthuso'r prosiect	Cwblhawyd	
Cyflwyno papur yn amlinellu dulliau, buddion ac ystyriaethau'r prosiect yng nghynhadledd flynyddol GEECS.	Cwblhawyd	Rhannwyd papurau a chyflwyniadau yn y cynadleddau canlynol: Adrodd Storïau er Iechyd a Lles, GEECS, Prifysgol De Cymru Cyfres Seminarau GEECS, Prifysgol De Cymru Cynhadledd flynyddol WISERD, Prifysgol De Cymru Cynhadledd flynyddol AtGender, Utrecht, yr Iseldiroedd Gŵyl Bod yn Ddynol, Amgueddfa Cymru


Dadansoddiad o Storïau Digidol a Hanesion Llafar

Dadansoddwyd storïau yn ôl yr iaith y cawsant eu rhannu ynddi, y ffurf y cawsant eu rhannu, a'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg. Mae pob dadansoddiad yn ôl faint o storïau yn hytrach na nifer y cyfranogwyr gan fod llawer o'r cyfranogwyr wedi dewis rhannu mwy nag un stori.



Ffigur 2: Storïau yn ôl iaith

Cynigiwyd cyfle i'r holl gyfranogwyr rannu storïau yn yr iaith o'u dewis. Dewisodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr rannu eu storïau yn Saesneg, hyd yn oed lle nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf (50 stori). Dewisodd rhai o'r cyfranogwyr rannu storïau yn eu hiaith gyntaf gyda chymorth cyfieithu; dyma'r manylion - Arabeg (4 stori), Bengaleg (1 stori), Portiwgaleg (6 stori), a Thwrceg (2 stori).



Ffigur 3: storïau yn ôl ffurf

Mae'r storïau'n cynnwys 19 o hanesion llafar a 45 stori ddigidol. Mae storïau digidol yn amrywio o 1 munud i 6 munud o hyd. Mae hanesion llafar yn amrywio o 18 munud i 1 awr a 17 munud. Yn gyfan gwbl, mae'r prosiect wedi cynhyrchu dros 12 awr o hanesion llafar wedi'u golygu a'u trawsgrifio.

Themâu allweddol sy'n codi o'r storïau

Gellir rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg o'r storïau'n fras yn saith maes; cartrefi a thai, goroeswyr sy'n cefnogi ac yn cynghori goroeswyr eraill, bwyd fel pont i gymuned, bod yn fam, lle a thirwedd, gwaith a bywyd proffesiynol, a gwrthrychau amgueddfa fel catalyddion i'r cof.

Cartrefi a Thai

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn rhannu storïau am eu profiad o loches neu brofiadau eraill o dai. Roedd y rhain yn aml yn amlygu'r lloches a'r tai fel man lle'r oedd pobl wedi dod o hyd i ddiogelwch a chymuned.

“Roedden nhw'n hapus iawn a daethon nhw yn y car... Wedyn dyma nhw'n rhoi'r tŷ iddyn nhw... Roedd popeth yno, gwely i'r plant, iddi hi ac, yn y gegin, roedd popeth, y stwff, popeth. Felly roedden nhw'n hapus iawn ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel yng Nghymru.”

Er bod hyn yn digwydd yn llai aml, roedd pobl yn rhannu profiadau o agweddau negyddol ar dai yn y Gymru gyfoes, er enghraifft cymhlethdodau gorfod byw mor agos at eraill mewn gofodau byw a rennir a phrofiadau o wahaniaethu. Yn ogystal, trafodwyd y cartref hefyd fel lle yr oedd pobl wedi'i adael ar ôl ac yn gweld ei eisiau.

“Cae reis fy nhad-cu, dyma'r cae reis lle ces i fy magu. A hwn yw'r tŷ bychan. Ydi'r cae reis ar hwnna? Felly roedd pobl yn aros yno ar ôl eu gwaith, ar ôl iddyn nhw wneud yr holl waith ar y cae reis, roedden nhw'n aros ar y cae hwnnw. Maen nhw'n yfed, yn dawnsio, yn canu'r gitâr, maen nhw'n gwylio'r haul.”

Goroeswyr yn cefnogi/cynghori goroeswyr eraill

Thema benodol a ddaeth i'r amlwg oedd dysgu defnyddiol yr oedd cyfranogwyr wedi'i gronni trwy eu profiad o dderbyn cefnogaeth ac yr oeddent yn awyddus i'w drosglwyddo er budd eraill.

Rwy'n eu helpu gyda beth bynnag y gallaf helpu gydag ef. Mae un wraig, mae hi'n dioddef ... Roedd hi eisiau i'w phlant, i newid ysgol [felly dwi'n] mynd â hi i lefydd lle mae hi'n gallu cael help hefyd. Felly, fel mae Cymru'n dysgu, mae wedi rhoi llawer o wersi da i mi ddysgu eraill, felly dwi'n hapus iawn ac yn falch o hynny.

Bwyd er mwyn adeiladu cymuned

Roedd bwyd yn thema oedd yn syndod o gyffredin yn y storïau. Roedd bwyd, coginio a bwyta yn benodol yn dwyn atgofion i'r cyfranogwyr ac roedd bwyd yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol, gan rannu bwyd fel ffordd ddefnyddiol o adeiladu cymuned, a bwyd yn dod ag atgofion yn ôl.

“Wrth goginio'r bwyd hwn yn y pot hwn, sy'n cael ei wneud â llaw, mae'n gwneud i'r bwyd fod mor flasus a gallwch chi deimlo pa mor flasus yw e, a phan mae wedi'i goginio y tu mewn iddo, mae'r bwyd yn wahanol, wnewch chi ddim blasu'r math hwn o fwyd yn unrhyw le arall, ie”

“Ypeth cyntaf wnaeth hi oedd prynu bwyd i mi, y bwyd rydyn ni fel arfer yn ei fwyta gartref. Ro'n i mor hapus, a dywedais wrthyf fy hun, O fy Nuw, dydw i ddim wedi gweld hyn mewn unrhyw siop oherwydd ro'n i'n chwilio amdano. Felly fe aeth hi ac fe brynodd hi'r bwyd, aethon ni i'w goginio a dyna ni, roedden ni mor hapus.”

Bod yn fam

Efallai na fydd yn syndod clywed bod profiad pobl o fod yn fam, yn ogystal â bod yn berthynas famol neu gael perthynas deuluol â phobl eraill, yn thema a ddaeth i'r amlwg yn aml yn storïau'r cyfranogwyr. Yn aml, roedd atgofion o'r teulu yn boenus i'w cofio oherwydd eu bod wedi gorfod cael eu gwahanu oddi wrth aelodau'r teulu. Roedd heriau magu plant mewn amgylchiadau anodd hefyd yn bwnc oedd yn codi'n aml.

“Wyddoch chi, mae'n hollol hanfodol i mi fel mam gyflwyno'r gwahanol lefydd hyn i'm mhlentyn fel y gall hi ddysgu, a hefyd symud o gwmpas y wlad, wyddoch chi, pan fydd hi'n tyfu i fyny ac yn gallu symud o gwmpas ar ei phen ei hun, defnyddio cludiant cyhoeddus, a dysgu am y llefydd hyn.”

“Fy nyfodol, hoffwn iddo fod - achos dwi'n fam i ddau. A dyw fy mhlant i ddim yma. Maen nhw'n oedolion ifanc. Felly yn y dyfodol efallai pe bawn i'n setlo i lawr yma hoffwn iddyn nhw ddod i Gymru a byw gyda fi.”

Lle/tirweddau

Roedd agweddau penodol ar dirwedd naturiol Cymru a'r llefydd yr oedd y cyfranogwyr yn dod ohonynt yn wreiddiol yn gyffredin yn y storïau. Yn benodol, roedd pobl yn trafod elfennau o'r dirwedd yr oeddent yn gweld eu heisiau o'u gwlad wreiddiol ac effaith ymdawelol treulio amser yn yr awyr agored ym myd natur, yn aml ger y môr.

“Mae'r awel oer, y môr, y dŵr hallt, mae'n dod. Sut alla' i? Mae'n... Roeddwn i'n teimlo'r math o deimlad nad ydw i'n ei deimlo fel arfer. Felly, roeddwn i'n teimlo'n hollol ddigynnwrf... Roedd fel eiliad cŵl iawn i mi, y teimlad hwnnw o lonyddwch.”

Gwaith a bywyd proffesiynol

Cyfeiriwyd at fywyd a gwaith proffesiynol fel pethau pwysig ar gyfer ennill annibyniaeth a sefydlu ymdeimlad o hunaniaeth. Roedd addysg hefyd yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yn y storïau, yn aml mewn perthynas ag addysg pobl yn cael ei dorri'n fyr a/neu fod yn rhywbeth y gellid ailafael ynddo ar ôl dod o hyd i ddiogelwch. Trafodwyd yr anawsterau ariannol sy'n gysylltiedig â methu gweithio yn y storïau hefyd.

“Rydw i wedi gwneud fy ngradd gyntaf. Fe wnes i basio'n dda iawn ac nid dod allan oeddyr hyn roeddwn i wedi ei ddisgwyl. Nid oes gwaith fel hynny ar gael yma. Felly, roedd yn rhaid i mi wneud swyddi gofal, gweithiwr cymorth. Er fy mod yn teimlo ei fod yn iawn, gan fy mod i'n helpu hen fenywod wrth fy ngwaith... ond yna yn sydyn, mae fy meddwl yn f'atgoffa i eto fy mod i yn athro”

Gwrthrychau amgueddfa fel catalyddion ar gyfer cof a lles

Roedd yn syndod gweld faint o'r gwrthrychau hanesyddol yn yr amgueddfa oedd yn dod ag atgofion yn ôl i'r cyfranogwyr. Roedd pobl yn uniaethu â gwrthrychau domestig - er enghraifft, lamp, drych, haearn smwddio, neu garthen - a oedd yn eu hatgoffa o'r ffordd y defnyddiwyd y gwrthrychau penodol hynny yn eu bywydau eu hunain (e.e. soniodd dau gyfranogwr am eu hatgofion o ddefnyddio lamp baraffin, ac adroddodd ddau arall storïau am ddrychau) neu'r ffordd y bu gwrthrychau tebyg yn nodwedd o'u bywydau (e.e. lle tân yn ysgogi atgofion o goginio). Roedd gwrthrychau, er enghraifft tecstilau, yn ysgogi sgysiau am grefftau traddodiadol a sut mae'r rhain yn cael eu pasio o un genhedlaeth i'r llall a'u haddasu gyda mudo.

“Fe welais i lawer iawn o bethau fel gwely, golau, haearn smwddio a bag poced a phopeth a dwi eisiau esbonio ychydig am y pethau yma achos pan welais i'r pethau yma roeddwn i, roedd fy nghefn, fe wnes i gofio pethau o fy mhentyndod, unwaith eto, a phan welais i'r pethau yma, roeddwn i'n teimlo'n hapus iawn a newidiodd mynegiant fy wyneb yn llwyr ac roeddwn i'n teimlo'n dda, wedi ymlacio ac yn gyfforddus a gyda'r pethau hyn, pan welais i bentref, dyna oedd fy nghartref.”

Llwyddiannau a Gwersi a ddysgwyd

Mae Llunwyr Polisi a Darparwyr Gwasanaethau wedi dysgu am werth hanes llafar a stori fel ffordd o ddeall profiadau'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Mae'r prosiect wedi gallu cataleiddio llunwyr penderfyniadau a'u haddysgu am anghenion a phrofiadau pobl a gefnogir gan Bawso. Er enghraifft, ym mis Hydref 2024 cyflwynwyd y prosiect gerbron ford gron VAWDASV yng Nghaerdydd gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae uwch-arweinwyr heddlu o Awstralia ac academyddion o Brifysgol Suffolk hefyd wedi cael eu hysbrydoli gan y prosiect ac wedi gofyn am gyngor gan dîm y prosiect ynghylch sut i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a mynd i'r afael â'r heriau o sicrhau bod llais goroeswyr wrth wraidd dylunio gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion goroeswyr. Yn fyr, mae'n ymddangos y bydd gwerth helaeth i'r storïau a'r hanesion llafar yn ogystal â'r gadwraeth treftadaeth oedd wedi'i ragweld.

Gellir ymgorffori cynlluniau ar gyfer lledaenu y tu hwnt i'r llwybrau arferol a gyda chynulleidfaoedd estynedig mewn unrhyw brosiectau yn y dyfodol.

Mae angen cefnogi pobl yn ddigonol er mwyn iddynt allu adrodd eu storïau yn eu dewis iaith

Un o lwyddiannau mawr y prosiect oedd ein bod yn gallu rhoi cyfle i oroeswyr adrodd eu storïau yn yr iaith yr oeddent yn ei dewis ac yna sicrhau bod storïau'n hygyrch yn yr archif mewn amrywiaeth o fformatau. Roedd pob un o'r storïau digidol yn cynnwys isdeitlau Cymraeg, a phan gofnodwyd storïau digidol mewn iaith heblaw Saesneg, roeddem hefyd yn gallu darparu isdeitlau Saesneg. Fodd bynnag, roedd hyn yn drwm o ran adnoddau ac roedd yr angen am ddehongli proffesiynol ar gyfer pob iaith ar bob math o ymgysylltiad yn un yr oeddem wedi'i danamcangyfrif. Er bod Bawso yn gyfarwydd iawn â darparu cefnogaeth i oroeswyr yn yr iaith o'u dewis, nid oeddem wedi gwerthfawrogi faint o gyfieithu y byddai ei angen wrth olygu'r storïau, lle bu'n rhaid i ni ymgysylltu â chyfieithwyr proffesiynol i gefnogi tîm y prosiect i olygu ac archifo'r storïau. Roeddem yn gallu talu'r costau ychwanegol a gododd yn sgil hyn drwy godi arian pellach ac o arbedion mewn llinellau prosiect eraill (e.e. arbedion trwy fenthycu yn lle prynu offer digidol a grant Ymgysylltu Dinesig gan Brifysgol De Cymru).

Roedd goroeswyr yn aml yn dewis dibynnu ar gefnogaeth cymheiriaid. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn ddigonol ac weithiau roedd yn golygu bod ffrindiau a theulu yn dewis ychwanegu at storïau'r goroeswyr yn ystod y broses o recordio'r hanes llafar neu nad oedd y cyfranogwyr yn cael cefnogaeth ddigonol i ymgysylltu. Mewn prosiectau yn y dyfodol, bydd yn bwysig trafod manteision cyfieithu proffesiynol ar gyfer recordio hanes llafar gyda chyfranogwyr a phartneriaid a sicrhau bod cyfieithydd proffesiynol yn bresennol yn ogystal â chefnogaeth cymheiriaid ym mhob ymgysylltiad.

Bydd angen ystyried yr amser a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer gweithio ar draws nifer o ieithoedd mewn prosiectau yn y dyfodol.

Angen hyblygrwydd

Oherwydd natur anrhagweladwy eu sefyllfa, roedd pobl a oedd yn derbyn cefnogaeth Bawso yn aml yn cael eu galw i ffwrdd ar fyr rybudd ar gyfer apwyntiadau swyddogol neu roedd eu hargaeledd yn newid am resymau eraill. Roedd y bobl a oedd yn derbyn cefnogaeth gan Bawso hefyd yn cael dyddiau lle roeddent yn teimlo'n anniogel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau (yn rhannol, roedd hyn oherwydd yr ymchwydd mewn hiliaeth a therfysg yn haf 2024). Yn sgil profiad tîm y prosiect ac arbenigedd Bawso, roedd modd i ni fod yn hyblyg yn y ffordd o weithio gyda'r cyfranogwyr, gan sicrhau y gallem gwrrd â nhw ar adeg gyfleus ac mewn lle a oedd yn gyfleus iddynt. Oherwydd yr hyblygrwydd hwn, o'i gyfuno â'r pwysigrwydd a roddwyd ar beri i storïau gael eu clywed a'u harchifo, llwyddwyd i sicrhau lefel uchel iawn o gyfranogiad gan bobl a oedd yn derbyn cefnogaeth gan Bawso o'i gymharu â phrosiectau eraill Bawso.

Mae hyblygrwydd yn allweddol wrth weithio gyda chyfranogwyr sydd ag amgylchiadau ansicr.

Cwestiynau ynghylch diogelwch ac aros yn ddi-enw o gymharu â rhoi llais i bobl

Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn golygu bod lleisiau pobl yn cael eu dwyn neu eu lleihau, ac roedd yn rhaid i ni daro cydbwysedd moesegol anodd rhwng galluogi pobl i adrodd eu storïau a chael eu cydnabod yn gyhoeddus amdanynt a sicrhau diogelwch y cyfranogwyr. Oherwydd bod llawer o'r cyfranogwyr yn dal i fod mewn amgylchiadau ansicr iawn ac yn cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol, bu'n rhaid addasu'r dull hanes llafar arferol, sy'n

cynnwys cofnodi data personol am gyfranogwyr. Roedd arbenigedd Bawso yn ganolog wrth sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch diogelu.

Er gwaetha'r ffaith ein bod ni wedi rhoi sicrwydd i'r cyfranogwyr nad oedd yn rhaid iddynt rannu unrhyw wybodaeth am y sefyllfa a oedd wedi arwain at gael cefnogaeth gan Bawso, roedd y rhai a oedd yn adrodd y storïau yn aml yn dewis cynnwys y wybodaeth hon mewn recordiadau. Er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn cael cefnogaeth ddigonol yn yr hyn a allai fod wedi bod yn sgwrs anodd iawn, roedd yn bwysig sicrhau bod gweithiwr cymorth cymwys bob amser yn bresennol yn yr adeilad.

Er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi cydnabyddiaeth i'r cyfranogwyr am eu gwaith, parchu eu dymuniadau ynglŷn â'u cyfraniad, a sicrhau diogelwch, gwnaed y penderfyniad i ganiatáu i gyfranogwyr gael cydnabyddiaeth gan ddefnyddio ffugenw os oeddent yn dewis gwneud hynny ac i ddileu unrhyw fanylion adnabod o recordiadau wrth olygu.⁹ Sicrhawyd hefyd bod y cyfranogwyr yn cadw perchnogaeth ddeallusol o'u storïau a'n bod yn dilyn proses gydsynio dau gam gyda chaniatâd i recordio ac yna caniatâd pellach ar gyfer cyhoeddi yn dilyn golygu. Roedd y broses hon yn gofyn am amser fel bod gan bobl le i ystyried yr hyn a oedd wedi'i rannu a sut, a dylid cynnwys hyn mewn unrhyw waith cynllunio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Mae angen amser ac arbenigedd wrth gefnogi pobl a allai fod â heriau o ran rhannu gwybodaeth bersonol.

Gweithio ar y cyd rhwng partneriaid

Un o uchafbwyntiau'r prosiect oedd y cydweithrediad rhagorol rhwng partneriaid. Roedd yn rhaid i bawb a oedd yn rhan o'r prosiect ddysgu llawer er mwyn deall amgylcheddau gwaith a phwysau sectorau gwahanol iawn (e.e. Cymorth VAWDASV, gwyddor amgueddfa, academia). Roedd pob partner yn gallu bod yn ymatebol a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Mewn prosiectau yn y dyfodol, byddai'n fanteisiol gosod disgwyliadau gan bawb a llinellau cyfathrebu clir, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd wyneb yn wyneb, o'r dechrau.

Cydgynhyrchu gyda chyfranogwyr

Oherwydd yr angen am hyblygrwydd wrth weithio gyda chyfranogwyr, ac oherwydd bod yn rhaid newid cyfarfodydd a oedd wedi'u cynllunio gyda'r cyfranogwyr yn aml ar y funud olaf, roedd angen neilltuo mwy o amser i weithio gyda'r cyfranogwyr nag yr oeddem wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Yn aml, roedd angen sawl cyfarfod gyda chyfranogwr cyn iddo gydsynio i recordio neu gyhoeddi stori er mwyn sicrhau ei fod wedi cael lle ac amser i ystyried a deall yr holl wybodaeth angenrheidiol yn llawn. Roedd parchu dymuniadau'r cyfranogwyr ac ymrwymadau eraill o fewn amserlen fer y prosiect hefyd yn golygu na ellid cymeradwyo rhai o'r storïau a gofnodwyd oherwydd diffyg argaeledd neu roedd rhaid eu tynnu'n ôl oherwydd bod y cyfranogwyr wedi newid eu meddyliau.

Rhaid i'r amser estynedig sydd ei angen i weithio'n wirioneddol mewn cydweithrediad â chyfranogwyr gael ei ymgorffori mewn unrhyw brosiectau yn y dyfodol.

Angen am amser ac adnoddau

Roedd oedi wrth gyflogi staff oherwydd problemau gyda gwiriadau diogelwch yr oedd yn rhaid i sefydliadau allanol eu gwneud. Yn ogystal, roedd gofyn i weithwyr cymorth yn Bawso wneud llawer o

⁹ Gweler atodiad 4, Proses Golygu Hanes Llafar.

waith i gefnogi'r cyfranogwyr i ymgysylltu â'r prosiect (e.e. esbonio'r prosiect, trefnu ac ail-drefnu apwyntiadau ar gyfer recordio a chymeradwyo, cysylltu â staff Prifysgol De Cymru) a doedd maint y gwaith hwn ddim wedi'i ragweld. Byddai adnoddau staff ychwanegol wedi bod o fudd i'r prosiect ac wedi galluogi pobl i ymgysylltu ymhellach.

Ni ddylid tanbrizio arbenigedd ac amser sefydliadau partner.

Oherwydd y llinell amser, doedd dim modd dadansoddi sut mae'r storïau'n cael eu defnyddio
Nod y prosiect hwn oedd cofnodi, cadw a rhannu storïau cymunedau Bawso.

Gellid cynnal prosiect pellach i ddadansoddi'n drylwyr yr hyn y mae'r storïau hyn yn ei ddweud wrthym am brofiad pobl ddu ac ethnig leiafrifol a phobl fudol.¹⁰

Cyfleoedd ar gyfer Cadwraeth Treftadaeth y Dyfodol

Mae'r prosiect hwn wedi gwneud gwaith cychwynnol sylweddol o ran cadw treftadaeth a storïau pobl sy'n derbyn cefnogaeth gan Bawso; fodd bynnag, o fewn cyfyngiadau amser a chyllid, dim ond megis dechrau yw hyn o ran cofnodi treftadaeth ddiwylliannol amrywiol y bobl sydd wedi dod i Gymru mewn sefyllfaoedd cymhleth. Mae'r meysydd y gallai'r prosiect hwn ddarparu sbardun ar gyfer cadwraeth treftadaeth yn y dyfodol yn cynnwys:

- Traddodiadau bwyd
- Rôl lloches wrth gefnogi cymuned a chyfeillgarwch
- Gwaith sefydliadau cymorth arbenigol VAWDASV ym mywydau pobl yng Nghymru
- Sut mae'r dirwedd naturiol yn cefnogi lles
- Sut mae mynediad â chefnogaeth i'r celfyddydau a threftadaeth yn cefnogi lles
- Arferion crefft
- Mudo

¹⁰ Rydym yn cydnabod bod y math hwn o ymchwiliad y tu hwnt i gylch gwaith cefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar hyn o bryd ac rydym yn chwilio am gymorth gan gyllidwyr ymchwiliad academaidd i wneud y dadansoddiad hwn.

“Un peth y mae'r project wedi ei ddangos yn glir yw pŵer gwrthrychau i sbarduno atgofion, sgysiau a syniadau, yn ogystal â photensial amgueddfeydd i fod yn fannau diogel, cefnogol a therapiwtig ar gyfer ein cymunedau. Roedd maint y project – a oedd yn cynnwys pump o amgueddfeydd Amgueddfa Cymru ledled Cymru – yn uchelgeisiol, ond yn y pen draw dyma oedd un o lwyddiannau mwyaf y bartneriaeth. Roedd yn golygu ein bod ni wedi gallu ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth Bawso a staff mewn cymunedau y tu hwnt i Gaerdydd, ac ymgorffori ystod fwy amrywiol o gasgliadau amgueddfeydd a gwahanol safleoedd yr amgueddfa yn y project. Y gwaith gorau yw gweithio ar y cyd. Trwy ein partneriaeth â Bawso a Phrifysgol De Cymru, bydd lleisiau'r menywod a ymddiriedodd eu storïau i ni yn dod yn rhan barhaol o gof cyfunol y genedl. Mae'r storïau hyn yn bwysig, mae angen iddyn nhw gael eu hadrodd, eu rhannu a'u deall. I'r amgueddfa, dyma waddol pwysicaf Storïau Bawso.”

Amgueddfa Cymru

“Rwy'n hapus iawn fy mod wedi rhannu fy niwylliant yng Nghymru”

Defnyddiwr Gwasanaeth Bawso

Atodiad 1: Catalog Stori

Hanes Llafar Angel
Hanes Llafar Annie
Hanes Llafar Cynthia
Hanes Llafar Diana Felipa
Hanes Llafar Elvira
Hanes Llafar Gulhan
Hanes Llafar Kiyomi
Hanes Llafar Madi
Hanes Llafar Maria Rosa
Hanes Llafar Mary
Hanes Llafar Precious
Hanes Llafar Silava
Hanes Llafar Sumaya
Hanes Llafar Tiffiny
Hanes Llafar Uma
Hanes Llafar Wole
Hanes Llafar Zoya
Hanes Llafar Chosen
Hanes Llafar Shapla
Stori Chosen "Baking in Kenya"
Stori Chosen "Fireplace in Kenya"
Stori Chosen "Lantern in Kenya"
Stori Chosen "Blankets in Kenya"
Stori Madi "Oil Lamp in Pakistan"
Stori Madi "Mirror in Pakistan"
Stori Madi "Coal Iron in Pakistan"
Stori Uma "Weighing Scales in India"

Stori Uma "Selling Dung Brick Fuel in India"
Stori Uma "Durga Puja in India"
Stori Moon "Golden Mirror"
Stori Precious "Snakes"
Stori Precious "Red Top"
Stori Annie "Typewriter in Kenya"
Stori Annie "Woollen Skirt"
Stori Annie "Solar Power"
Stori Annie "Slate Heart"
Stori Annie "Making Chapati in Kenya"
Stori Nancy "Cook with Love"
Stori Angel "Old Painting"
Stori Angel "Home to Home"
Stori Cynthia "Customs in Ghana"
Stori Fatema Zahra "Family Life in Morocco"
Stori Fatema Zahra "Feeling Comfortable"
Stori Gulhan "Crochet in Turkey"
Stori Kiyomi F. "Arriving in the Cold"
Stori Kiyomi F. "Beautiful East Africa"
Stori Kiyomi F. "Nursing Uniform"
Stori Pure Heart "Beach Day"
Stori Shapla "Bangladesh and Barry Island"
Stori Shapla "Roath Park"
Stori Silava "Working with Wool in Syria"
Stori Sumaya "School in Syria and South Wales"
Stori Wole "Freedom After Lockdown with"
Stori Zoya "First Child"
Stori Zoya "Crafts"
Stori Zoya "Growing in Confidence"

Stori Diana Felipa "Petrol Lamp in Portugal"
Stori Maria Rosa "Three Memories from São Tomé and Príncipe"
Stori Elvira's Story "Grandfather Clock in São Tomé and Príncipe"
Stori Ely Shama "Sewing Machine in Bangladesh"
Stori Mary "Charcoals and Chapati in Kenya"
Stori Tiffany "Scrap Mat in Guyana"
Stori Tiffany "Welsh Slate in Guyana"

Atodiad 2: Cwestiynau Hanes Llafar

Cyfweliadau a gynhaliwyd yn Saesneg gyda chyfieithiad lle bo angen

Question guide

1. Can you tell me about your experience of coming to Wales
 - What do you feel your relationship with Wales is like now?
2. Would you feel comfortable telling me about home means to you now?
 - What makes you feel at home?
3. Can you describe a place or a time in your life that is important to you?
 - Can you use your five senses to describe what it was like?
4. Would you like to tell me about your childhood?
5. Can you tell me about a moment when something changed for you?
6. What are your hopes for the future?
7. Is there anything else you would like to share or that you feel is important for us to know?

Museum group Intro:

We met at XXX museum and we looked at different objects during the day. You picked up on certain things, e.g. axe, quilt, sewing machine, mirror...

- Can you tell me again why that object was significant for you and what it reminded you of?
- Have you thought about it anymore or in different ways in the past week since we met?

Atodiad 3: Taflen Wybodaeth Cyfranogwyr a Ffurflenni Cydsyniad

Participant Information Sheet

Title of Project: **Bawso Oral Stories**

Name of Researcher: **Dr Sophia Kier-Byfield** Name of supervisor: **Prof Emily Underwood-Lee**

Invitation

You have been asked to share your story as part of the Bawso Oral Stories study. We want to hear about your experience so that we can understand and preserve the stories and heritage of people who have moved to Wales.

Who is funding and organising the study?

The study is funded by the National Lottery Heritage Fund and organised and conducted by the University of South Wales (USW) as part of the Bawso Oral Stories project led by Bawso in collaboration with USW and Amgueddfa Cymru – Museum Wales (ACMW).

What is involved?

Taking part in this study and sharing your story is entirely voluntary. You will be guided through the process of telling a life-story of your choice, both individually and in groups, about your experience of coming to Wales. The story you share will be audio recorded. Some of your story will be edited and put together with images (photographs or drawings of your choice) to create a short video clip called a Digital Story. A longer audio version of your story will also be recorded, this is known as an Oral History. You will not be filmed; you can remain as anonymous as you choose in your digital story and oral history.

What information will you collect about me?

We will ask you to tell us your name so that we can identify you as part of the consent process. We will not ask you for any personal information beyond your name. We will ask you to share a story of your choice, which you can do either using your own name or using a pseudonym if you would like to be anonymous.

How will my data be stored?

Your consent form and recorded story will be stored on the secure servers of USW and will only be accessible to the research team. Your personal information will be treated as confidential and handled in accordance with the General Data Protection Regulations 2016 and will be destroyed once it is no longer required, or after 5 years, whichever is the sooner. Nothing will be shared beyond the research team until you have reviewed the material and signed a consent form detailing how you would like your story to be used. Following that, the consent level you choose will be added to the front of the story so that it is clearly visible to everyone. You will be able to decide whether you would like your edited digital story and oral history to be shared in the archives and collections of Amgueddfa Cymru – Museum Wales, on

websites including The People's Collection Wales, Bawso, and The University of South Wales, and on social media, e.g. Twitter, Facebook, Instagram etc.

What are the costs of taking part and what expenses can I expect to receive?

There is no cost to participate in this study. We will cover the cost of your travel to take part in this study. We will also provide interpreters and other support to enable you to participate.

What are the risks and benefits of taking part?

We do not envisage any risk to taking part in this study, nor are there any direct benefits to participating in this study.

You may be identifiable from your story. If you ask us to anonymise your story, we will remove any information that might identify you, such as names of places, services, or dates. If you choose, we will also disguise your voice.

If you find telling your story upsetting, or there is anything you would like to discuss after your participation in this study, we will provide support for you through the project team at Bawso.

How can I withdraw from the study?

You may at any time withdraw from this study or ask us not to use or share your story further. Simply contact us using the details below and we will delete all your information to the best of our ability.

What support will I receive?

We know that sometimes people have experiences that are upsetting. If this has happened to you, or if telling your story is upsetting, the person recording the story will talk to you and, with your permission, they will arrange for someone from Bawso to meet you and provide support.

What if something goes wrong?

Safeguarding and participant safety

Just occasionally, a person may tell us about something that might indicate they are in danger. If we think you are in danger, the Bawso project team will investigate to see if action should be taken. We will only reveal your story details as necessary to identify the issue and to take appropriate action.

Making a complaint

If you wish to make a complaint about this study, you should contact the study lead, Prof Emily Underwood-Lee on emily.underwood-lee@southwales.ac.uk. Should you wish to complain further, please contact Jonathan Sinfield, Research Governance Manager, University of South Wales, on jonathan.sinfield@southwales.ac.uk who will direct you to our University complaints procedure.

If you have questions before or after sharing your story or you wish to withdraw consent at any time you can contact the researcher: Dr Sophia Kier-Byfield

Consent Form - Stage 1

Title of Project: **Bawso Oral Stories**

Name of Researcher: **Dr Sophia Kier-Byfield**

Name of supervisor: **Prof Emily Underwood-Lee**

Please **(initial)** all boxes

1. I confirm that I have read and understand the information sheet dated 5/12/2023 (version 2) for the above study. I have had the opportunity to consider the information, ask questions and have had these answered satisfactorily.	
2. I understand that my participation is voluntary and that I am free to withdraw at any time without giving any reason, without any consequence to myself.	
3. I agree to my participation being audio recorded and edited; it's been explained how this data will be stored, who will have access to it, and how long it will be kept.	
4. I give permission for my data to be stored and processed in accordance with the GDPR (2018).	
5. I agree to take part in the above study.	

Name of participant	Date	Signature
Name of researcher taking consent	Date	Signature

10
PLEASE TURN OVER

Consent Form 1, Version 1, 22/5/2023

Consent Form – Stage 2

Title of Project: **Bawso Oral Stories**

Name of Researcher: **Dr Sophia Kier-Byfield**

Name of supervisor: **Prof Emily Underwood-Lee**

Please **(initial)** all boxes

1. I confirm that I have read and understand the information sheet dated 5/12/2023 (version 2) for the above study. I have had the opportunity to consider the information, ask questions and have had these answered satisfactorily.	
2. I understand that my participation is voluntary and that I am free to withdraw at any time without giving any reason, without any consequence to myself.	
3. I have had opportunity to view my edited story and am happy for this to be disseminated: a. In the archives and collections of Amgueddfa Cymru – Museum Wales ☐ b. On websites e.g The People's Collection Wales, Bawso, and The University of South Wales, Amgueddfa Cymru etc ☐ c. On social media, e.g. Twitter, Facebook, Instagram etc ☐ d. In written publications, e.g. project reports, journal articles, etc ☐ e. In any other uses in line with the project aims and objectives ☐	
4. I understand that I may request that my story is destroyed and withdrawn from dissemination at any point and but that it may not be possible to remove all copies of the story that have been shared online.	
5. I have had opportunity to discuss whether I want my story to be shared anonymously or in my name. The name I wish to be known by in my story is _____	
6. I understand that I will retain the copyright of my story but I grant the University of South Wales and its partners a worldwide, non-exclusive, royalty-free licence in perpetuity to store and publish the material in whole or in part for University activities.	
7. I give permission for my data to be stored and processed in accordance with the GDPR (2018).	

11

Consent Form 2, Version 3, 5/12/2023

PLEASE TURN OVER

8. I agree that my contribution will become part of the National Collection cared for by Amgueddfa Cymru – National Museum Wales. It will be preserved as a permanent public reference resource, for use in research, publication, education, lectures, broadcasting, online and digital resources, and also third-party use deemed appropriate by the Museum.	
9. I agree to my anonymised data being used in study specific reports and subsequent articles that will appear in academic journals as part of this study.	

Name of participant	Date	Signature
Name of researcher taking consent	Date	Signature

12
PLEASE TURN OVER

Consent Form 2, Version 3, 5/12/2023

Atodiad 4: Protocol Golygu Hanes Llafar

Dileu'n awtomatig wrth olygu:

- Enwau Defnyddwyr Gwasanaeth
- Enwau aelodau Staff Bawso
- Lleoliad Defnyddwyr Gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw gyfeiriadau at ble maen nhw'n byw nawr a ble maen nhw wedi byw o'r blaen, ac unrhyw fanylion, fel enw pentref, tref neu ddinas, neu dirnodau penodol yn y mannau hynny a allai ddangos ble mae eu mannau preswyllo
 - o Mae cyfeiriadau cyffredinol at "Cymru", "Lloegr", ac ati'n iawn i'w cadw, yn ogystal â llefydd y maent yn cyfeirio atynt yn haniaethol
- Unrhyw wybodaeth am weithrediadau cyfreithiol neu yn y llysoedd
- Cyfeiriadau at Gam-drin/Trais oedolion
- Cyfeiriadau at faterion mewnfudo

I'w cadw wrth olygu:

- Unrhyw fanylion am brofiad personol maen nhw wedi dewis eu rhannu, os nad ydyn nhw'n ei gwneud yn bosibl adnabod pobl
- Cyfeiriadau at yr amgueddfeydd yr ymwelwyd â nhw

Gweithdrefn gwirio Storïau Bawso

1. Caiff y Defnyddiwr Gwasanaeth gyfle i adolygu'r straeon a'r hanes llafar.
2. Yna bydd y trawsgrifiadau'n mynd i Bawso i gael eu hadolygu, eu gwirio'n derfynol, a'u cymeradwyo.
3. PDC i dynnu sylw at unrhyw fanylion pwysig yn y trawsgrifiad ar yr adeg hon.
4. Dychwelyd trawsgrifiadau i PDC a gwneud unrhyw olygu sydd ei angen i'r sain.
5. Anfon y fersiynau terfynol i'w harchifo a'u rhannu.

Atodiad 5: Dysgu allweddol o'r Gwerthuso Allanol

Cynhaliwyd gwerthusiad allanol gan Jasmin Chowdhury. Y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwerthuso oedd: arsylwi cyfranogwyr yng nghyfarfod y grŵp llywio, gweithdai; adborth o'r gweithdai; arsylwi heb gyfrannu pan oedd cyfranogwyr/defnyddwyr gwasanaeth yn rhannu eu straeon; cyfweiliadau â staff allweddol y prosiect o wahanol sefydliadau partner; cyfweiliadau gyda chyfranogwyr/defnyddwyr gwasanaeth.

Amlinellir canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad allanol isod.

Adborth gan gyfranogwyr a staff yn dilyn gweithdai

Yr hyn weithiodd yn dda	Meysydd i'w gwella
Gweithio mewn partneriaeth	Peidio â threfnu'r gweithgareddau hyn yn ystod gwyliau ysgol
Cyfranogol – pawb yn gallu cymryd rhan	Roedd iaith yn rhwystr i gymryd rhan yn llawn
Diwrnod allan braf	Diwrnod hir - llawer i'w gynnwys
Bwyd da	Bu'n rhaid addasu'r cynllun cychwynnol -
Pobl dda yn rhan o'r prosiect -	Dull hyblyg – llawer o amser i dîm y prosiect
Lle hyfryd â golygfeydd gwych – wedi tynnu lluniau hyfryd	Dryswch ynghylch talebau cinio
Rhannu straeon am y gorffennol - atgofion da	Gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr cymorth a thîm y prosiect
Cwrdd â phobl	Oedi cyn cychwyn yn golygu y bu'n rhaid i'r curadur addasu - angen mwy o amser ar gyfer y gweithdy
Brwdfrydedd a haelioni pawb oedd yn gysylltiedig (gan gynnwys cydweithwyr a chyfranogwyr)	Gwastraff cost llogi bws (gydag un o'r gweithdai) gan fod llai o gyfranogwyr wedi mynychu
Mae cael grwpiau yn bwysig iawn ar gyfer: gwneud cysylltiadau cymdeithasol, cymuned gefnogol, clywed hanesion pobl eraill, cymorth gydag iaith	
Gweithiodd yr elfennau mwy anffurfiol, gan gynnwys cinio a'r sgysiau yn ystod taith yr amgueddfa, yn dda iawn i ddod â phobl at ei gilydd fel grŵp a sbardunodd hyn lawer o straeon.	
Dull hyblyg - pwysig i gyfranogwyr	

Tabl o adroddiad wedi'i ddarparu gan Jasmin Chowdhury

Adborth gan gyfranogwyr a staff y prosiect ar ôl y prosiect

- Cytunodd pob aelod o staff y prosiect a gafodd eu cyf weld ei bod yn hanfodol bwysig ymgysylltu a gweithio gyda goroeswyr trwy sefydliadau sy'n cynnig cymorth arbenigol i oroeswyr o gymunedau du a lleiafrifol ethnig i ennyn ymddiriedaeth a sicrhau ymgysylltiad cadarnhaol.
- Mae profiad, gwybodaeth a sgiliau aelodau allweddol tîm y prosiect yn hanfodol a [heb y rhain] gall fod yn niweidiol i'r holl broses o ymgysylltu a chydgyhyrchu.

- Mae dull cydweithredol sy'n cynnwys tîm amlddisgyblaethol yn amhrisiadwy wrth gyflawni prosiectau fel hyn. Mae'n bwysig paratoi, gan gynnwys meddwl am risgiau posibl, cyn dechrau'r broses o ymgysylltu â goroeswyr
- Mae'n bwysig meddwl am y risgiau a'r heriau, fel diffyg mynediad uniongyrchol gan ymchwilyr i gyfranogwyr i rannu gwybodaeth am y prosiect a sicrhau cydsyniad gwybodus.
- O edrych yn ôl, teimlwyd y dylid bod wedi ystyried ymhellach a rhoi mwy o sylw i ddelio â 'sbardunau' a rheoli'r ddeinameg bŵer yn enwedig wrth gyfathrebu trwy gyfieithydd
- Rhaid gwreiddio amrywiaeth, diogelwch a chynhwysiant o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys ystyried ieithwedd a therminoleg sy'n cael eu defnyddio, y tasgau a'r gweithgareddau roedd disgwyl i gyfranogwyr gyfrannu atynt megis gweithgareddau torri'r garw, yn ogystal â'r angen i ystyried priodoldeb diwylliannol o ran bwyd drwy gydol y broses weithredu gyfan.
- I'r rhai sydd wedi ymgysylltu'n dda â goroeswyr o gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig, roedd yn bwysig nodi'r 'diffyg hanesyddol mewn ymddiriedaeth' ac mor hanfodol yw sicrhau bod y cyfranogwyr/cyfranwyr i gyd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Er bod sicrhau bod gweithdrefnau diogelu cadarn a hyfforddiant ar gyfer staff y prosiect yn cael eu hystyried, mae angen hefyd rywfaint o hyblygrwydd drwy gydol y broses o ymgysylltu â goroeswyr, a'u cynnwys. Mae'n bwysig bod yn barod ar gyfer oedi annisgwyl o ran cyfranogwyr yn cyrraedd yr amgueddfa ar gyfer gweithdai a chyfranogwyr yn gorfod mynychu gyda phlant.

Nodiadau o adroddiad wedi'i ddarparu gan Jasmin Chowdhury

Casgliadau o'r gwerthusiad allanol

- Roedd profiad blaenorol o gydweithio yn fantais ond roedd cryfder y cydweithio wrth oresgyn rhai o heriau, rheoli disgwyliadau, yn ogystal â risg o agosrwydd cymdeithasol, yn hanfodol ar gyfer gweithio mewn tîm ar y prosiect hwn. Dangosodd profiad cadarnhaol gwahanol randdeiliaid sut roedd pob ymdrech, gan gynnwys estyn allan at oroeswyr ar gam priodol yn eu taith, yn hanfodol i wneud y prosiect hwn yn llwyddiannus.
- Roedd pawb oedd yn rhan o'r prosiect hwn yn rhannu'r ymdeimlad o foddhad a chyflawniad ac roedd hyn yn ehangach na dim ond cyflawni'r gobeithion a rhagori ar y targed mewn rhai achosion. Roedd hyn o ganlyniad i broses ymgysylltu ystyrlon yn seiliedig ar ymdeimlad o ryddfrenio, hynny yw, nid dim ond cyfrannu at wybodaeth, ond anelu hefyd at newid perthnasodd pŵer y status quo, gan ddechrau gyda'r broses ymchwil ei hun. Efallai mai'r rhan ddaeth â'r mwyaf o foddhad oedd gweld a chlywed am yr effeithiau ar y ffordd roedd goroeswyr, a rannodd eu profiadau mewn ffordd mor urddasol, yn teimlo amdanyn nhw eu hunain, a'u hunan-barch.
- Argymhellir yn gryf bod gwaith yn digwydd yn y dyfodol i archwilio effaith y straeon, ac i ystyried sianeli addas fel ysgolion ac addysg yn ogystal ag unrhyw newid mewn ymarfer gan sefydliadau partner. Bydd angen i hyn gynnwys monitro'r cyrhaeddiad a'r ymgysylltiad trwy ledaenu trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cyflwyno mewn cynadleddau, cyfleoedd i hyfforddi gweithwyr proffesiynol o wahanol sectorau.

- Bydd hyrwyddo a rhannu'r straeon gyda goroeswyr eraill yn ysbrydoli. Dylai gwaith yn y dyfodol hefyd geisio datblygu sgiliau a gwybodaeth y cyfranogwyr o ran adrodd straeon, a defnyddio eu mewnwelediad i ddylanwadu ar newid.

Nodiadau o adroddiad wedi'i ddarparu gan Jasmin Chowdhury